


# NEWID Y BYD DRWY EICH DEWISIADAU

## Trawsgrifiad ffilm

Fy enw i yw Claire a dwi'n gweithio i'r Sefydliad Masnach Deg. Heddiw, dwi'n mynd i ddangos i chi sut gallwch wneud gwahaniaeth mawr drwy'r dewisiadau rydych yn eu gwneud bob dydd.

Yr un beth mae angen ar gyfer y gweithgaredd hwn yw chi!

Mae gennych lawer o gyfleoedd drwy gydol y dydd i wneud gwahaniaeth i bobl ym mhedwar ban byd a'r blaned rydym yn byw arni.

Un ffordd i wneud gwahaniaeth yw drwy'r pethau rydym yn dewis eu bwyta, eu hyfed neu eu gwisgo.

Mae gan bopeth rydych yn ei brynu - pob crys-T, pob pin, pob bar o siocled – stori, sy'n mynd yn ôl misoedd neu flynyddoedd hyd yn oed cyn eich cyrraedd chi!

O'r cychwyn ar fferm neu gloddfa i'r silff neu'r siop yn eich tref, mae'r pethau rydym yn eu prynu i'w bwyta, eu gwisgo a'u defnyddio wedi bod drwy lawer o leoedd ac weithiau llawer o brosesau.

Ar bob cam o'r ffordd, mae yna bobl.

Gall eich cynnyrch gael effaith fawr ar y bobl a'r lleoedd ar hyd y ffordd. Yn aml nid yw'r cwmnïau sy'n gwneud y cynnyrch ac yn eu gwerthu'n talu'r ffermwyr yn dda iawn am eu gwaith caled. Mae'r ffermwyr yn diweddu wedi'u maglu mewn tlodi.

Bydd y cwmnïau hyn yn rhoi mwy o degwch i'r ffermwyr os ydynt yn meddwl bod eu defnyddwyr (chi!) yn poeni am y ffermwyr a'u bywydau.

Mae dewis cynnyrch sydd wedi cael eu cynhyrchu gan roi bargen well i ffermwyr yn ffordd y gallwch ddewis newid y byd.

Felly, mae prynu cynnyrch Masnach Deg yn un ffordd y gallwch wneud gwahaniaeth enfawr yn y byd. Ond sut arall gallwch wneud gwahaniaeth yn y byd drwy eich dewisiadau?



# CLIMATE, FAIRTRADE AND YOU

CHOOSE THE WORLD YOU WANT

FAIRTRADE

Heddiw, rydw i yn Cupar, tref Masnach Deg yn yr Alban, a dwi'n mynd i gwrdd â rhai pobl sy'n ceisio newidiadau er mwyn cael syniadau.

**Dewis tyfu'n organig**

Mae ein teulu wir yn poeni am yr holl gemegau sy'n mynd i'r aer, felly rwyf wedi bod yn ymchwilio i ffyrdd i atal hynny. Un o'r ffyrdd yw tyfu pethau'n organig. Enghraifft o hyn yw, yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud, gwnes i a'm tad greu busnes perlysiau organig. Mae'r holl gemegion o beidio â bod yn organig yn mynd i'r atmosffer ac yn difrodi'r blaned. Mae'n gadael i ormod o olau haul ddod i mewn gan doddi'r rhewfryniau fel nad oes gan yr anifeiliaid pegynol le i fyw mwyach.

**Dewis ailddefnyddio'ch sbwriel**

Rwyf wedi penderfynu fy mod yn mynd i ailddefnyddio'r sbwriel. Gallaf ddefnyddio potel blastig fel bwydwr adar i helpu'r adar neu flychau cardboard i greu gemau fel yr un hon. Petai pawb yn gwneud rhywbeth bach, gallai wneud llawer o effaith.

**Dewis defnyddio llai o blastig**

Helo. Rydw i a'm teulu yn hoff iawn o'r môr ac felly rydym wedi penderfynu defnyddio llai o blastig. Pan fyddwn yn defnyddio plastig ac nid oes modd ei ailgylchu, rydym yn ei roi mewn poteli mawr fel yr un hon felly pan fyddant yn mynd i'r safle tirlenwi, ni fydd yn chwythu i'r môr ac ni fydd anifeiliaid yn cael eu hanafu.

Rydym hefyd yn defnyddio haenau glynu cwyr gwenyn fel nad ydym yn defnyddio haenau plastig ac nid yw'n mynd i'r môr ac nid yw anifeiliaid yn cael eu hanafu. Felly gadewch i ni achub ein moroedd!

**Dewiswch wisg ysgol wedi'i wneud o gotwm Masnach Deg**

Rwy'n gwisgo gwisg ysgol Masnach Deg oherwydd rwy'n meddwl y dylai'r ffermwyr cotwm yn yr India sy'n tyfu'r cotwm gael eu talu digon er mwyn bwydo eu teuluoedd a'u hunain a chael digon o arian hefyd i brynu meddyginiaeth a dillad. Rwy'n credu y dylen ni annog pobl i brynu mwy o eitemau Masnach Deg. Mae ansawdd y cardiganau y mae'r ffermwyr yn eu cynhyrchu hefyd yn dda ac yn para amser hir. Mae hyn yn oed yr athrawon yn eu gwisgo!

Os ydym yn gweithio gyda'n gilydd i wneud dewisiadau sy'n helpu pobl a'r blaned, gallwn newid y byd er gwell.




Diolch am wylio, Nawr eich bod wedi gorffen gwylio’r fideo hwn ac wedi cael rhai syniadau gwych, hoffem glywed sut y gwnaethoch chi ddewis newid y byd heddiw!

Gallwch chi ddewis y byd rydych am ei gael!